BRITISH CANOEING
AWARDING BODY

# Cyngor i Hyfforddwyr sydd ran o'r ffordd trwy'r Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad

# Cyngor i Hyfforddwyr sydd ran o'r ffordd trwy Ddyfarniad Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain

## Rhagarweiniad

Bydd pob elfen o Hyfforddiant ac Asesiad Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain yn peidio â gweithredu ar 28ain Mehefin 2020.

Bydd hyfforddwyr sydd â Hyfforddiant Craidd Hyfforddwr Perfformiad neu Hyfforddiant Penodol Disgyblaeth yn gallu trosglwyddo i'r Dyfarniadau Hyfforddwr Perfformiad newydd, a ryddhawyd ar 29ain Mehefin 2020.

Gweler "Hyfforddwr Perfformiad Cyn y Cyn-Ryddhau" ar gyfer manylion y Dyfarniadau newydd.

## Rhagofynion

Ar gyfer y cymwysterau newydd bydd angen cymhwyster hyfforddi disgyblaeth benodol yn yr un ddisgyblaeth ac amgylchedd yr ydych am ei ddilyn (Canŵio Prydain (UKCC) Lefel 2, neu BCU Lefel 3 o leiaf). Er enghraifft:

- Y Dyfarniad Hyfforddi cyfatebol
- Yr Ardystiad Dŵr Cymedrol cyfatebol neu'r Hyfforddwr Lefel 3 BCU
- Yr Ardystiad Dŵr Uwch cyfatebol neu'r Hyfforddwr Lefel 5 BCU

Gweler Atodiad 1 am fanylion penodol ar gyfer pob disgyblaeth/amgylchedd.

Byddwch hefyd angen:

- Aelodaeth lawn o'r Gymdeithas Genedlaethol;
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf cyfredol;
- Hyfforddiant diogelu (fel sy'n ofynnol gan eich Cymdeithas Genedlaethol).

## Cofrestru

Os oes gennych Hyfforddiant Craidd Hyfforddwr Perfformiad dilys neu Hyfforddiant Penodol Disgyblaeth, byddwch yn gallu trosglwyddo'ch cofrestriad i'r ddisgyblaeth/amgylchedd o'ch dewis o fewn y strwythur newydd trwy'ch Gymdeithas Genedlaethol, cyn belled â'ch bod yn cwrdd â'r rhagofynion perthnasol.

## Taith Ddysgu

### Rhagarweiniad

Yn y rhaglen NEWYDD mae'r daith ddysgu yn gyfnewidiol ac wedi'i phersonoli i bob hyfforddwr sy'n ymgymryd â'r rhaglen. Mae yna sawl cydran allweddol ond, fel hyfforddwr profiadol, bydd yr hyfforddwr yn llywio cyfeiriad a chanolbwynt ei ddysgu yn y meysydd sydd fwyaf perthnasol iddo.

Fel hyfforddwr sy'n trosglwyddo o'r strwythur Hyfforddwr Perfformiad presennol, dylech ystyried pa rai o'r cydrannau newydd sydd fwyaf perthnasol i'ch anghenion chi. Mae angen ystyried y cydrannau canlynol:



### Offeryn ac Adnoddau Hunan Ddadansoddi gan yr Hyfforddwyr - Dewisol

Mae'r offeryn Hunan-ddadansoddi gan yr Hyfforddwyr ar gael i bob hyfforddwr trwy wefan Corff Dyfarnu Canŵio Prydain. Mae'n offeryn defnyddiol i'ch helpu chi i ganolbwyntio ar feysydd o'ch datblygiad a'ch dysgu sydd fwyaf perthnasol i'ch sefyllfa unigol. Yn seiliedig ar eich ymatebion, byddwch hefyd yn cael eich cyfeirio at adnoddau priodol i gefnogi'ch dysgu a'ch datblygiad.

### Sesiynau Mentora Ar-lein - Angenrheidiol

Mae'n ofynnol i hyfforddwyr sy'n ymuno â'r Rhaglen Hyfforddwr Perfformiad Newydd gymryd rhan mewn o leiaf dwy sesiwn fentora cyn asesu ar gyfer pob cymhwyster disgyblaeth/amgylchedd y maent yn gweithio tuag ato.

Mae'r sesiynau mentora ar-lein wedi'u cynllunio i gefnogi datblygiad a meddwl parhaus (oddeutu awr yr un). Yn ystod y sesiynau hyn, bydd trafodaeth â Mentor Hyfforddwr Perfformiad yn cefnogi myfyrio, yn ysgogi mewnwelediadau a gweithredu, ac yn eich cefnogi i wneud synnwyr o'ch arferion.

NID yw'n ofynnol i hyfforddwyr sy’n trosglwyddo sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Penodol Disgyblaeth Hyfforddwr Perfformiad (yn yr un ddisgyblaeth ag y maent am drosglwyddo iddynt) gymryd rhan mewn unrhyw sesiynau mentora ffurfiol, er y gallant brynu i mewn i'r rhain os dymunant.

Mae'n ofynnol i hyfforddwyr sy’n trosglwyddo sydd wedi cwblhau Hyfforddiant Craidd Hyfforddwr Perfformiad gymryd rhan mewn DWY sesiwn fentora ffurfiol yn unig, a gallant ychwanegu pethau ychwanegol os dymunant.

### Digwyddiadau Cymuned Ddysgu Hyfforddwr Perfformiad

Mae'r digwyddiadau hyn yn **ddewisol os** yw Hyfforddiant Craidd Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (cyn 2020) wedi'i gwblhau. (Mae eu hangen os NAD yw Hyfforddiant Craidd Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (cyn 2020) wedi'i gwblhau).

Bydd calendr o ddigwyddiadau deuddydd, wyneb yn wyneb ar gael i hyfforddwyr ar y rhaglen. Mae’r digwyddiadau hyn yn darparu cyfleoedd i ddad-bigo ‘Hyfforddi Perfformiad’ a sut mae hyn yn berthnasol i bwy, beth a sut rydych chi'n hyfforddi.

Bydd hyfforddwyr yn rhannu'r digwyddiadau hyn â hyfforddwyr medrus a phrofiadol eraill o ystod o ddisgyblaethau, gan gael cyfleoedd pwerus i archwilio, datblygu a mireinio'ch meddwl am eich arferion hyfforddi, eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.

Dylai'r gefnogaeth a'r her y mae eich cyfoedion a'r hwyluswyr yn eu cynnig i'r digwyddiadau hyn fwydo'ch chwilfrydedd; gan eich ysgogi i archwilio ac ymestyn syniadau newydd yn eich hyfforddiant tra hefyd yn eich helpu i fireinio'ch arferion presennol.

Gall hyfforddwyr fynychu cymaint o'r Digwyddiadau Cymuned Ddysgu hyn ag y dymunant; mae gofyniad sylfaenol i fynychu o leiaf un cyn yr asesiad, er bod hyfforddwyr a gwblhaodd Hyfforddiant Craidd Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (cyn 2020) wedi'u heithrio o'r gofyniad sylfaenol hwn.

**Cefnogaeth Datblygwr Hyfforddwyr**

Mae dysgu gan hyfforddwyr gwybodus eraill yn elfen hanfodol i fireinio a datblygu eich arfer, eich dealltwriaeth a'ch gwybodaeth. Gellir dod o hyd i gofrestr o Ddatblygwyr Hyfforddwyr, gyda manylion eu meysydd arbenigol, gan ddefnyddio system chwilio ddigidol, sydd ar gael trwy eich Cymdeithas Genedlaethol.

Yn wahanol i gymwysterau Hyfforddi Corff Dyfarnu Canŵio Prydain eraill, mae gennych ymreolaeth dros y pynciau yr ydych am eu harchwilio, a mater i chi yw ceisio dysgu yn y meysydd sydd fwyaf perthnasol i'ch rôl hyfforddi. Gallwch ddefnyddio'r offeryn Hunan-ddadansoddi gan yr Hyfforddwyr a Sesiynau Mentora i helpu i nodi pynciau priodol, Datblygwyr Hyfforddwyr, a sut y gallai'r Datblygwr Hyfforddwyr gefnogi'ch amcan(ion) dysgu a nodwyd orau.

Byddwch yn ariannu'r rhyngweithiadau Datblygwyr Hyfforddwyr hyn mewn cytundeb â nhw.

Gallwch drefnu cymaint o'r 'pwyntiau cyffwrdd' Datblygwr Hyfforddwyr hyn ag y dymunwch. Mae gofyniad sylfaenol i gymryd rhan mewn o leiaf dau cyn yr asesiad.

Ystyrir bod Hyfforddiant Penodol Disgyblaeth Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (cyn 2020) yn cyfateb i un pwynt cyffwrdd (os yw yn y ddisgyblaeth/amgylchedd perthnasol). Gellir hefyd ystyried pwyntiau cyffwrdd eraill a gyrchwyd ar y llwybr Hyfforddwr Perfformiad blaenorol (e.e. cefnogaeth hyfforddi gan fentor), cysylltwch â'ch Cymdeithas Genedlaethol iddynt ddilysu'r rhain.

**Tasg Athroniaeth - Angenrheidiol**

Yn y rhaglen newydd, bydd hyfforddwyr yn cael eu herio a'u cefnogi i ddatblygu dealltwriaeth ddofn ymhellach o sut mae eu gwerthoedd a'u credoau yn siapio ac yn sail i'w harfer hyfforddi. Mae'r pwnc hwn wedi'i ymgorffori mewn sesiynau gyda'r Mentor a Datblygwyr Hyfforddwyr, i'r Digwyddiadau Cymuned Ddysgu, a darperir deunyddiau cymorth i helpu'r hyfforddwr i ddatblygu ei feddwl yn y maes hwn.

Fel hyfforddwr sy'n trosglwyddo byddwch yn cael y deunyddiau cymorth ac yn gallu defnyddio'r gefnogaeth Mentor, cefnogaeth Datblygwr Hyfforddwyr, Digwyddiadau Cymuned Dysgu i weddu i'ch anghenion unigol. Mae'n ofynnol i chi gyflwyno a thrafod eich athroniaeth hyfforddi yn ystod y sesiwn mentora cyn-asesiad.

**Sesiwn Mentora Cyn Asesu - Angenrheidiol**

Dylid trefnu sesiwn ar-lein gyda Mentor Hyfforddwr Perfformiad pan fyddwch chi'n teimlo'n barod i symud ymlaen i'r asesiad hyfforddi ymarferol (a chyn archebu). Bydd hyn yn eich helpu i wirio eich parodrwydd ar gyfer asesu a mireinio'ch paratoadau terfynol.

Yn ystod y sesiwn hon byddwch hefyd yn cyflwyno ac yn trafod eich athroniaeth hyfforddi. Mae hyn yn rhoi cyfle i chi fynegi eich ffordd o feddwl a rhannu enghreifftiau i arddangos sut mae'n dylanwadu ar eich arferion hyfforddi. Mae cysylltiadau cryf rhwng eich cyflwyniad a'ch asesiad hyfforddi ymarferol.

Bydd recordiad o'r sesiwn Mentora Cyn-asesu ac unrhyw ddeunyddiau ategol yn cael eu rhannu gyda'r asesydd sy'n gweithio gyda chi ar eich asesiad ymarferol i ddarparu cyd-destun a chefndir i sut a pham rydych chi'n mynd ati gyda’ch arfer hyfforddi fel rydych chi'n ei wneud.

Ar ôl y cyflwyniad, byddwch naill ai'n cael caniatâd i wneud trefniadau ar gyfer sefydlu eich asesiad ymarferol neu, os oes angen datblygiad pellach, cytunir ar gynllun gweithredu personol.

**Crynodeb o'r Cydrannau Dysgu Gofynnol**

| | **Ystyriaeth ar gyfer Trosglwyddo Hyfforddwr** | |
|---|---|---|
| | Os ydych wedi cwblhau **Hyfforddiant Penodol Disgyblaeth** Hyfforddwr Perfformiad (yn yr un ddisgyblaeth ag yr hoffech drosglwyddo iddo): | Os ydych wedi cwblhau **Hyfforddiant Craidd** Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (cyn 2020): |
| **Offeryn Hunan-ddadansoddi Hyfforddwyr ac Adnoddau** | Dewisol. Mae rhyddid i ddefnyddio'r adnodd hwn gymaint ag y dymunwch. | |
| **Sesiynau Mentora Ar-lein** | NID oes gofyn i chi gymryd rhan mewn unrhyw sesiynau mentora ffurfiol, er y gallwch chi brynu i mewn iddyn nhw os dymunwch. | MAE'N ofynnol i chi gymryd rhan mewn DWY sesiwn fentora ffurfiol, a gallwch brynu i mewn i bethau ychwanegol os dymunwch. |
| **Digwyddiadau Cymuned Ddysgu** | Mae'r digwyddiadau 2 ddiwrnod, wyneb yn wyneb hyn yn ddewisol os yw Hyfforddiant Craidd Hyfforddwr Perfformiad Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (cyn 2020) wedi'i gwblhau. Maent ar agor i chi eu mynychu os dymunwch. | |
| **Cefnogaeth Datblygwr Hyfforddwyr** | Mae angen dau 'bwynt cyffwrdd' gyda Datblygwr/Datblygwyr Hyfforddwyr cofrestredig.<br>Ystyrir bod Hyfforddiant Penodol Disgyblaeth Hyfforddwr Perfformiad (cyn 2020) yn cyfateb i un pwynt cyffwrdd (os yw'n y ddisgyblaeth/amgylchedd perthnasol). Gellir hefyd ystyried pwyntiau cyffwrdd eraill a gyrchwyd ar y llwybr Hyfforddwr Perfformiad blaenorol (e.e. cefnogaeth hyfforddi gan fentor), cysylltwch â'ch Cymdeithas Genedlaethol iddynt ddilysu'r rhain. | Mae angen dau 'bwynt cyffwrdd' gyda Datblygwr/Datblygwyr Hyfforddwyr cofrestredig. |
| **Tasg Athroniaeth** | Mae hyn yn ofynnol ar gyfer pob hyfforddwr sy'n trosglwyddo. Bydd deunyddiau ategol yn cael eu darparu ar adeg trosglwyddo'ch cofrestriad. | |
| **Sesiwn Mentora Cyn-asesu** | Mae angen sesiwn ar-lein gyda Mentor Hyfforddwr Perfformiad pan fyddwch chi'n teimlo'n barod i symud ymlaen i'ch asesiad hyfforddi ymarferol (a chyn archebu). | |

# Asesu

## Rhagarweiniad

Os ydych chi eisiau symud ymlaen i'r asesiad, mae'n ofynnol i chi fod wedi cwblhau'r rhagofynion Asesiad Hyfforddwr Perfformiad NEWYDD a bod y rhain wedi'u gwirio trwy Gofrestru i’r Asesiad gyda'ch Cymdeithas Genedlaethol.

Mae Cofrestru i’r Asesiad yn gwirio eich bod wedi cwblhau'r cydrannau dysgu gofynnol (gweler tudalen 5); a bod gennych Ddiweddariad Hyfforddwr dilys y Gymdeithas Genedlaethol.

Ar ôl cwblhau'r broses Gofrestru, byddwch yn gweithio gyda'ch Cymdeithas Genedlaethol i sefydlu'ch Asesiad Hyfforddi Ymarferol.

## Asesiad Hyfforddi Ymarferol

Er mwyn cyflawni eich cymhwyster Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad mae angen i chi gwblhau asesiad ymarferol yn llwyddiannus sy'n canolbwyntio ar eich sgiliau hyfforddi. Mae'n ofynnol i chi drefnu, cynllunio a darparu o leiaf tair awr (sydd wedi'u rhannu i weddu i anghenion y dysgwyr yn ôl yr angen) hyfforddiant ansawdd ar gyfer o leiaf dau ddysgwr. Dylai'r dysgwyr fod yn nodweddiadol o'r bobl rydych chi'n eu hyfforddi fel arfer, ac yn addas ar gyfer hyfforddi yn yr amgylcheddau dyfarnu a nodwyd. Bydd y meini prawf asesu NEWYDD yn cael eu diweddaru, er y byddant yn rhannu llawer o debygrwydd â'r cymwysterau cyfredol.

## Nodyn ynghylch y Portffolio Hyfforddwr Perfformiad

Nid oes angen portffolio o dystiolaeth yn y llwybr Hyfforddwr Perfformiad NEWYDD. Er nad oes angen y dystiolaeth ysgrifenedig hon mwyach, dylai hyfforddwyr sydd wedi cwblhau neu rannu'n rhannol eu Portffolio Hyfforddwr Perfformiad presennol gael y gweithgareddau'n fuddiol wrth baratoi ar gyfer yr asesiad NEWYDD.

## Atodiad 1

I gofrestru ar gyfer y Dyfarniad Hyfforddwr Perfformiad NEWYDD bydd angen cymhwyster hyfforddi disgyblaeth benodol yn yr un ddisgyblaeth ac amgylchedd yr ydych am ei ddilyn (Canŵio Prydain (UKCC) Lefel 2, neu BCU Lefel 3 o leiaf).

| **Cymhwyster Disgyblaeth/Amgylchedd Hyfforddwr Perfformiad NEWYDD:** | **Cymhwyster Hyfforddi Hanfodol** (Mae angen un o'r cymwysterau rhestredig) |
|---|---|
| Hyfforddwr Perfformiad Canŵ (DC) | • Hyfforddwr Canŵ Corff Dyfarnu Canŵio Prydain (DC)<br>• Hyfforddwr Canŵ a Chaiac Canŵio Prydain (DC)<br>• Hyfforddwr Canŵ Lefel 3 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac (DC) | • Hyfforddwr Caiac Canŵio Prydain (DC)<br>• Hyfforddwr Canŵ a Chaiac Canŵio Prydain (DC)<br>• Hyfforddwr Caiac Mewndirol Lefel 3 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Dull Rhydd | • Hyfforddwr Dull Rhydd Canŵio Prydain |
| Hyfforddwr Perfformiad Canŵ Dŵr Agored | • Hyfforddwr Canŵ Dŵr Agored Canŵio Prydain<br>• ADC Canŵio Prydain - Canŵ<br>• Hyfforddwr Canŵ Lefel 3 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Canŵ Dŵr Agored (DU) | • Hyfforddwr Canŵ Dŵr Agored Canŵio Prydain (DU)<br>• ADU Canŵio Prydain - Canŵ Dŵr Agored<br>• Hyfforddwr Canŵ Lefel 5 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Polo | • Hyfforddwr Polo Canŵio Prydain |
| Hyfforddwr Perfformiad Rasio | • Hyfforddwr Rasio Canŵio Prydain<br>• Hyfforddwr Rasio Lefel 3 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac Môr | • Hyfforddwr Môr Canŵio Prydain<br>• ADC Canŵio Prydain - Môr<br>• Hyfforddwr Môr Lefel 3 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac Môr (DU) | • Hyfforddwr Môr Canŵio Prydain (DU)<br>• ADU Canŵio Prydain - Môr<br>• Hyfforddwr Môr Lefel 5 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Slalom | • Hyfforddwr Slalom Canŵio Prydain<br>• Hyfforddwr Slalom Lefel 3 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac Beiston | • Hyfforddwr Beiston Canŵio Prydain<br>• ADC Canŵio Prydain – Beiston<br>• Hyfforddwr Beiston BCU Lefel 3 |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac Beiston (DU) | • Hyfforddwr Caiac Beiston Canŵio Prydain (DU)<br>• ADU Canŵio Prydain – Beiston<br>• Hyfforddwr Beiston BCU Lefel 5 |
| Hyfforddwr Perfformiad PS (Dŵr Agored) | • Hyfforddwr PS Canŵio Prydain (Dŵr Agored) |
| Hyfforddwr Perfformiad PS (DC) | • Hyfforddwr PS Canŵio Prydain (DC) |

| | |
|---|---|
| Hyfforddwr Perfformiad PS (Dŵr Gwyn) | • Hyfforddwr PS Canŵio Prydain (Dŵr Gwyn) |
| Hyfforddwr Perfformiad PS (Rasio) | • Hyfforddwr PS Canŵio Prydain (Ras) |
| Hyfforddwr Perfformiad Canŵ DG | • Hyfforddwr Canŵ DG Canŵio Prydain<br>• ADC Canŵio Prydain - Canŵ<br>• Hyfforddwr Canŵ Lefel 3 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Canŵ DG (DU) | • Hyfforddwr Canŵ DG Canŵio Prydain (DU)<br>• ADU Canŵio Prydain - Canŵ DG<br>• Hyfforddwr Canŵ Lefel 5 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac DG | • Hyfforddwr Caiac DG Canŵio Prydain<br>• ADC Canŵio Prydain - Caiac Dŵr Gwyn<br>• Hyfforddwr Caiac Mewndirol Lefel 3 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Caiac DG (DU) | • Hyfforddwr Caiac DG Canŵio Prydain (DU)<br>• ADU Canŵio Prydain - Caiac DG<br>• Hyfforddwr Caiac Mewndirol Lefel 5 BCU |
| Hyfforddwr Perfformiad Rasio Dŵr Gwyllt | • Hyfforddwr Rasio Dŵr Gwyllt Canŵio Prydain |

**Talfyriadau a ddefnyddir:**

DC = Dŵr Cysgodol

DU = Dŵr Uwch

DG = Dŵr Gwyn

ADC = Ardystiad Dŵr Cymedrol

ADU = Ardystiad Dŵr Uwch

PS = Padlfwrdd Sefyll

**Achredu Dysgu Blaenorol**

Os oes gennych gymwysterau hyfforddi disgyblaeth benodol eraill gallwch wneud cais i'ch Canolfan Gyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Achredu Dysgu Blaenorol (APL). Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefannau Canolfannau Cyflwyno'r Gymdeithas Genedlaethol.